**Atodiad 4**

**Ymgysylltu gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc Sirol – Rhagfyr 2025**

Fel rhan o'r broses o ddatblygu Strategaeth Ysgolion newydd Gwynedd, ymgysylltwyd â phobl ifanc er mwyn sicrhau bod eu profiadau a'u safbwyntiau'n llywio'r amcanion strategol.

Er bod nifer o'r sylwadau'n deillio o sefyllfaoedd penodol o fewn ysgolion unigol, mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu materion ehangach sy'n berthnasol i weithredu'r Strategaeth ar draws y sir.

Cynhaliwyd trafodaethau â phobl ifanc er mwyn deall eu profiadau a'u barn ar drefniadau addysg presennol.

**1. Yr Iaith Gymraeg a Hunaniaeth**

Mynegwyd balchder yn yr iaith Gymraeg a'i rôl ganolog ym mywyd ysgol a chymunedol. Roedd pobl ifanc yn awyddus i weld mwy o gyfleoedd naturiol a pherthnasol i ddefnyddio'r Gymraeg. Pwysleisiodd pobl ifanc bwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel elfen greiddiol o'u profiad addysgol.

**2. Dysgu Digidol**

Cydnabuwyd pwysigrwydd technoleg fel rhan o ddysgu modern. O ran darpariaeth Lefel A, nodwyd bod gwersi hybrid yn cael eu hystyried fel ateb posibl i heriau'n ymwneud â cholli pynciau, fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch tegwch a chysondeb profiad dysgu'r trefniadau hyn.

**3. Darparu Cwricwlwm Teg, Hygyrch a Chynhwysol**

Nodwyd pryderon ynghylch y system ddewis pynciau TGAU, gyda rhai dysgwyr yn mynegi teimlad bod cyfyngiadau trefniadol yn arwain at golli cyfleoedd i astudio pynciau dewisol.

**4. Athrawon Llanw**

Mynegwyd pryderon ynghylch ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth addysgu, yn enwedig o ran trefniadau athrawon llanw. Holwyd sut y caiff athrawon llanw eu dewis, gyda chanfyddiad ymhlith pobl ifanc fod safon yr addysgu'n amrywio ac, mewn rhai achosion, yn is na'r disgwyl. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau prosesau cadarn i gynnal safonau uchel a darparu amgylchedd dysgu diogel a sefydlog.

**5. Hyd amser y gwersi**

Holodd pobl ifanc am hyd amser pob gwers, yn ogystal â phwy sy'n penderfynu ar yr amserlen a maint pob dosbarth. Roeddent am ddeall sut a pham y gwneir y penderfyniadau hyn, a sut maent yn effeithio ar eu profiad dysgu yn yr ysgol.

**6. Llais a Chyfranogiad Pobl Ifanc**

Pwysleisiodd pobl ifanc yr angen i'w lleisiau gael eu clywed a'u cymryd o ddifrif mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Roedd awydd clir am fwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar fywyd ysgol, y cwricwlwm a phenderfyniadau lleol.

Er bod y trafodaethau wedi canolbwyntio ar brofiadau penodol, mae canfyddiadau'r ymgysylltu â phobl ifanc Gwynedd yn dangos cyd-fynd cryf â phrif themâu Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026-2036.

Yn benodol, pwysleisiwyd pwysigrwydd:

- hyrwyddo a chryfhau'r Iaith Gymraeg ar draws profiadau addysgol,
- sicrhau diogelwch, parch a theimlad o berthyn o fewn ysgolion,
- cefnogi llesiant pobl ifanc drwy fecanweithiau cyfranogiad democrataidd, gan gynnwys rôl y cynghorau ysgol a ffyrdd eraill o sicrhau bod llais pobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd parhau i ymgysylltu'n ystyrlon â phobl ifanc wrth weithredu a monitro Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026 - 2036 yn y dyfodol.